Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (GWYDDELWERN, SIR DDINBYCH) (CYFYNGIAD A GWAHARDDIADAU TRAFFIG DROS DRO) 201-

MAE GWEINIDOGION CYMRU yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud y gwaith o osod wyneb newydd ar gefnffordd yr A494 yng Ngwyddelwern, Sir Ddinbych.

Disgwylir y bydd y cyfyngiad a'r gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 07:30 o'r gloch ar 10 Chwefror 2014 ac y byddant yn parhau mewn grym tan 18:00 o'r gloch ar 28 Chwefror 2014 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Rhagwelir mai dim ond rhwng 07:30 o'r gloch a 18:00 o'r gloch y bydd y gwaith yn digwydd.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwneud y canlynol dros dro:

i. Gwahardd pob cerbyd rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn tua'r de o bwynt 100 o fetrau i'r gogledd o'r cyfyngiad cyflymder parhaol o 30 mya i'r gogledd o Wyddelwern hyd at bwynt 240 o fetrau i'r gogledd o'r annedd a elwir Ty'n y Rhos, i'r de o Wyddelwern. Bydd arwyddion traffig a osodir ymlaen llaw yn dangos y cyfnodau pan fydd y ffordd ar gau a disgwylir mai am gyfnodau o 20 munud ar y mwyaf y byddant yn para, yn ôl yr angen. Nid oes angen unrhyw lwybrau dargyfeiriol.

ii. Gosod terfyn cyflymder o 10 mya ar y darn o'r gefnffordd a bennir uchod. Dim ond yn ystod gwaith confoi y bydd y terfyn cyflymder hwn yn gymwys.

iii. Gwahardd pob cerbyd rhag goddiweddyd ar y darn o'r gefnffordd a bennir uchod tra bo gwaith confoi yn digwydd.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

M D BURNELL
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

THE A494 TRUNK ROAD (GWYDDELWERN, DENBIGHSHIRE) (TEMPORARY TRAFFIC RESTRICTION & PROHIBITIONS) ORDER 201-

THE WELSH MINISTERS propose to make an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake resurfacing works on the A494 trunk road at Gwyddelwern, Denbighshire.

The restriction and prohibitions, which will be signed accordingly, are expected to come into force at 07:30 hours on 10 February 2014 and remain until 18:00 hours on 28 February 2014 or until the temporary traffic signs are permanently removed. It is envisaged that the works will only take place between 07:30 hours and 18:00 hours.

The effect of the proposed Order will be to temporarily:

i. Prohibit all vehicles from proceeding in the length of the trunk road that extends in a southerly direction from a point 100 metres north of the permanent 30 mph speed restriction to the north of Gwyddelwern to a point 240 metres north of the dwelling known as Ty'n y Rhos, south of Gwyddelwern. Any such closures will be indicated by advance traffic signs and are expected to be for a maximum period of 20 minutes, as required. No diversionary routes are necessary.

ii. Impose a 10 mph speed limit on the length of the trunk road specified above. This speed limit will only apply during convoy working.

iii. Prohibit all vehicles from overtaking in the length of the trunk road specified whilst during convoy is in force.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

M D BURNELL
Transport, Welsh Government.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE